Cysawd yr Haul (system blanedol)
Mae cysawd yr haul yn cynnwys seren (yr Haul) a'r holl wrthrychau sy'n troi o'i chwmpas. Mae'r rhain yn cynnwys y planedau, lleuadau, corblanedau, asteroidau a chomedau.



Mae'r **Haul** yng nghanol Cysawd yr Haul.

Mae **planedau** yn troi o gwmpas yr haul, mae **lleuadau** yn troi o gwmpas planedau.

Ardal rhwng orbitau Mawrth a Iau yw'r **gwregys asteroid** lle mae miloedd o asteroidau creigiog a chorblanedau.

Gwrthrych tebyg i blaned ond sy'n rhy fach i gael ei galw'n blaned yw **corblaned.** Mae Plwton yn enghraifft.

Mae **comedau** yn cael eu ffurfio o iâ a llwch y tu hwnt i orbit Neifion, ac mae ganddyn nhw orbitau eliptig iawn.

Cofiwch, nid yr haul yw'r unig seren gyda phlanedau. Mae gan sêr eraill blanedau yn eu cysawd.

Pellteroedd yn y gofod
Gan fod pellteroedd yn y gofod mor fawr, mae'n anymarferol defnyddio metrau neu km, felly defnyddir unedau gwahanol:
Uned seryddol = y **pellter** cymedrig **o'r Haul i'r Ddaear** (tua 150 000 000km)
Blwyddyn golau = y pellter mae golau yn teithio mewn un flwyddyn.

Ffurfiant Cysawd yr Haul
Ffurfiodd cysawd yr Haul o gwmwl nwy, sef hydrogen a heliwm yn bennaf, a **llwch wedi'i fwrw allan o uwchnofa**. Gwnaeth **grymoedd disgyrchiant** achosi i'r cwmwl hwn gwympo ac i'r gronynnau gasglu ynghyd.



Wrth i'r cwmwl gwympo fe ddechreuodd **droelli.** Gwnaeth hyn iddo droi'n ddisg.

Daeth canol y ddisg yn Haul a chasglodd y gweddill ynghyd i ffurfio'r planedau.

Mae'r **planedau mewnol yn greigiog** am ei bod yn rhy gynnes ac yn rhy agos at yr Haul i'r **elfennau nwyol ysgafn** gyddwyso, ac felly mae'r elfennau yn cael eu **gwthio ymhellach** oddi wrth yr Haul.

Mae'r **planedau allanol yn nwyol** gan ei bod yn oerach ymhellach oddi wrth yr Haul, ac **roedd yr elfennau nwyol yn gallu cyddwyso** a chasglu i ffurfio'r cewri nwy.

Planedau yng Nghysawd yr Haul

Planed	Mercwri	Gwener	Y Ddaear	Mawrth	Iau	Sadwrn	Wranws	Neifion
Cyfansoddiad	Planedau mewnol Planedau **creigiog**				Planedau allanol Cewri **nwy**			
Màs (o'i gymharu â'r Ddaear)	0.055	0.815	1	0.107	318	95	15	17
Pellter o'r haul (AU)	0.4	0.7	1	1.5	5.2	9.5	19.2	30
Amser i un orbit cyflawn (blynyddoedd)	0.24	0.60	1	2	12	30	84	160
Tymheredd	430	465	20	-20	-150	-170	-200	-210
Nifer y lleuadau	0	0	1	2	63	60	27	13

Er na fydd angen i chi gofio'r rhifau penodol uchod, bydd angen i chi **gofio'r drefn** ac **adnabod patrymau** yn y data. Er enghraifft, wrth i'r pellter o'r Haul gynyddu, felly hefyd mae'r amser ar gyfer un orbit. **Sylwer**, wrth i'r pellter o'r Haul gynyddu, mae'r **tymheredd** yn gostwng; ac **eithrio Gwener** sydd ag atmosffer trwchus sy'n cadw mwy o wres i mewn.